Swyddfeydd Budd-daliadau Tai a Budd-dal Treth y Cyngor
Rhif ffôn: 01492 576491
Rhif ffacs: 01492 576260

Conwy County Borough Council
**Bodlondeb, Conwy LL32 8DU**

# Taflen ynglŷn ag apeliadau

## Beth i'w wneud os rydych yn credu fod y penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor yn anghywir

**Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â sut y gallwch:**

- **ofyn i ni esbonio ein penderfyniad;**
- **herio ein penderfyniad; ac**
- **apelio yn erbyn ein penderfyniad.**

# Beth i'w wneud os rydych yn credu fod ein penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor yn anghywir

Os rydych wedi derbyn penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu'ch Budd-dal Treth y Cyngor ac yn credu ei fod yn anghywir, bydd rhaid i chi wybod beth i'w wneud.

Os rydych yn credu bod y penderfyniad yn anghywir, gallwch ofyn i ni am esboniad. Os rydych yn dal i gredu ei fod yn anghywir ar ôl i ni ei esbonio, mi fyddwn yn fodlon edrych arno eto.

Gyda rhai penderfyniadau, gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol fydd yn gallu newid y penderfyniad os ydynt yn cytuno ei fod yn anghywir.

Mae terfynau amser os rydych eisiau i ni edrych ar benderfyniad eto neu os ydych eisiau apelio. Rydym yn dweud wrthych am y terfynau amser yma yn y daflen hon.

## Beth i'w wneud

1 **Ydych chi eisiau i ni esbonio ein penderfyniad?**
➢ Gweler tudalen 3.

2 **Ydych chi eisiau i ni edrych eto ar ein penderfyniad?**
➢ Gweler tudalen 4.

3 **Ydych chi eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad?**
➢ Gweler tudalen 5.

4 **Ydych chi eisiau gwybod beth i'w wneud ar ôl i chi apelio?**
➢ Gweler tudalen 7.

5 **Ydych chi eisiau gwybod beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno gyda chanlyniad yr apêl?**
➢ Gweler tudalen 9.

6 **Ydych chi eisiau help gyda'ch apêl ac eisiau gwybodaeth ynglŷn â sefydliadau eraill sy'n gallu helpu?**
➢ Gweler tudalen 10.

## Y penderfyniad

Os rydych yn derbyn penderfyniad yn ysgrifenedig gennym ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor, gallwch ofyn i ni edrych arno eto. Os na fyddwn yn newid ein penderfyniad, efallai y gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol. Byddwn yn dweud wrthych os oes gennych hawl i apelio yn y llythyr ynglŷn â'r penderfyniad.

- Os rydych yn derbyn penderfyniad yn ysgrifenedig y rheswm fel arfer yw :

  - eich bod chi wedi hawlio Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor;
  - bod eich amgylchiadau wedi newid a bod hyn yn cael effaith ar eich budd-dal; neu
  - ein bod ni wedi dweud wrthych fod rhaid i chi ad-dalu eich budd-dal.

- Efallai y byddwch yn gallu gofyn i ni edrych ar benderfyniad eto, neu apelio yn ei erbyn. Mae rheolau arbennig os nad ydych yn hawlio'r budd-dal eich hun. Er enghraifft, os rydych yn landlord a ninnau'n penderfynu a ddylid talu'r Budd-dal Tai yn uniongyrchol i chi, neu os rydych yn landlord a ninnau'n penderfynu gofyn i chi ad-dalu'r arian ar ôl i ni dalu gormod o Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor i chi.

- Os rydych yn 'unigolyn penodedig' ar gyfer unigolyn arall (rhywun sy'n gweithredu ar ran unigolyn nad ydynt yn gallu gweithredu yn annibynnol) gallwch ofyn i ni edrych ar benderfyniad ynglŷn â'u budd-dal eto, ac efallai y gallwch apelio ar eu rhan. Byddwn yn dweud wrthych yn y llythyr ynglŷn â'r penderfyniad a oes gennych hawl i apelio.

## Ydych chi eisiau i ni esbonio'r penderfyniad?

Byddwch wedi derbyn llythyr yn dweud wrthych beth yw'r penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor. Os rydych eisiau rhagor o wybodaeth am y penderfyniad, cysylltwch â ni yn syth.

Rhaid i chi wneud hyn yn syth oherwydd os rydych eisiau i ni edrych ar y penderfyniad eto, neu apelio yn ei erbyn, rhaid i chi wneud hyn o fewn **un mis calendr (mis llawn yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad, ac nid y dyddiad rydych yn cysylltu â ni. Gallwch ein ffonio ni, ysgrifennu atom, neu ymweld â ni

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, gallwch wneud un o'r canlynol.

- Gofyn i ni esbonio pam y gwnaethom y penderfyniad.

- Neu, os rydych eisiau rhagor o wybodaeth i'ch helpu i benderfynu beth i'w wneud, gofynnwch i ni am 'ddatganiad o resymau' ysgrifenedig ar gyfer y penderfyniad os nad ydym wedi anfon un atoch eisoes. Rhaid i chi wneud hyn o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad. Byddwn yn anfon y 'datganiad o resymau' atoch cyn gynted â phosib.

- Os rydych yn dal i anghytuno â'r penderfyniad, gallwch:

  - ofyn i ni edrych arno eto (gweler tudalen 4); neu
  - apelio yn erbyn y penderfyniad (gweler tudalen 5).

- Os gwnaethoch ofyn i ni am 'ddatganiad o resymau' ysgrifenedig, byddwn yn ychwanegu'r amser y mae'n ei gymryd i ni ei anfon at yr **un mis calendr (mis llawn yn hytrach 4 wythnos)** sydd gennych eisoes. Bydd hyn yn rhoi mwy o amser i chi ofyn i ni edrych ar y penderfyniad neu apelio yn ei erbyn.

## Ydych chi eisiau i ni edrych ar y penderfyniad eto?

Gallwch ofyn i ni wneud hyn os rydym wedi esbonio'r penderfyniad i chi neu anfon 'datganiad o resymau' ysgrifenedig i chi yn esbonio'r penderfyniad, ac rydych yn dal i gredu ei fod yn anghywir.

- O fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** i ddyddiad derbyn ein llythyr penderfyniad, dylech ddweud wrthym os rydych eisiau i ni edrych ar eich penderfyniad eto. Os byddwch yn gofyn i ni roi esboniad yn gyntaf, byddwn yn dal i gyfri'r **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad. Os byddwch yn gofyn i ni am 'ddatganiad o resymau' ysgrifenedig, bydd yr **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos**) yn dechrau o'r dyddiad ar y llythyr penderfyniad ond byddwn yn ychwanegu'r amser y mae'n ei gymryd i ni anfon y 'datganiad o resymau' atoch.
- Os oes rheswm da pam na allwch gysylltu â ni o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos),** efallai y byddwn yn dal i fedru newid y penderfyniad. Dywedwch wrthym beth yw'r rheswm pan fyddwch yn cysylltu â ni.
- Os rydych yn gofyn i ni edrych ar benderfyniad eto mwy nag **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad ac nad oes rheswm da pam, efallai ei bod hi'n dal i fod yn bosibl i ni newid y penderfyniad. Ond bydd hyn fel arfer o'r dyddiad y gwnaethoch ysgrifennu atom.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Pan fyddwch yn gofyn i ni edrych ar benderfyniad eto, byddwn yn gofyn i aelod gwahanol o staff wirio ei fod yn gywir. Os yw'r penderfyniad yn anghywir, byddwn yn ei newid.

### Os rydym yn gallu newid y penderfyniad

- Os gwnaethoch ofyn i ni edrych ar y penderfyniad eto o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos),** neu os oedd rheswm da pam nad oedd posibl i chi wneud hynny, byddwn yn newid y penderfyniad o'r dyddiad y gwnaethom y penderfyniad cyntaf.
- Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad newydd, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.
- Os gwnaethoch ofyn i ni edrych ar ein penderfyniad eto ar ôl **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** a heb reswm da dros wneud hynny, byddwn fel arfer yn newid y penderfyniad o'r dyddiad y gwnaethoch ofyn i ni wneud hynny.
- Byddwn yn anfon llythyr atoch yn dweud beth yw'r penderfyniad newydd.

### Os nad yw'n bosibl i ni newid y penderfyniad

- Os nad yw'n bosibl i ni newid y penderfyniad byddwn yn anfon llythyr atoch yn nodi hyn. Bydd y llythyr yn cadarnhau ein penderfyniad cyntaf.
- Bydd y llythyr hwn yn dweud wrthych os yw'n bosibl i chi apelio yn erbyn y penderfyniad cyntaf.
- Os yw'n bosibl i chi apelio, mae'r terfyn amser o un **mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** yn dechrau eto o'r dyddiad ar y llythyr sy'n cadarnhau'r penderfyniad.

## Ydych chi eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad?

Gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad os:

- rydym wedi esbonio ein penderfyniad neu anfon ‘datganiad o resymau’ i’w esbonio ac rydych yn dal i gredu ei fod yn anghywir; a
- mae’r llythyr sy’n nodi’r penderfyniad yn dweud bod gennych hawl i apelio yn ei erbyn.

**Os mai ‘ydw’ yw eich ateb i’r cwestiynau a ganlyn, gallwch apelio gan ddefnyddio’r ffurflen ar gefn y daflen hon.**

- Ydych chi’n credu fod gennych hawl i apelio ynglŷn â’r penderfyniad?
- Ydych chi’n credu fod y penderfyniad yn anghywir?
- Ydych chi eisiau apelio i dribiwnlys annibynnol?

Bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn penderfynu ar ganlyniad eich apêl yn y gwrandawiad tribiwnlys. Mae’r tribiwnlys yn cynnwys pobl nad ydynt o’r awdurdod lleol.

- Llenwch bob bocs ar y ffurflen sy’n berthnasol i chi. Gallwch gael cymorth o ganolfan gynghori neu gan gyfreithiwr.
- Ysgrifennwch y rhesymau pam eich bod eisiau apêl. Mae hyn yn bwysig oherwydd nid oes rhaid i dribiwnlys edrych ar unrhyw beth nad ydych yn ei grybwyll. Gwnewch yn siŵr eich bod yn llofnodi’r ffurflen.
- Anfonwch y ffurflen yn ôl i’r swyddfa o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** i’r dyddiad ar eich llythyr penderfyniad.
- Os nad ydych yn gallu apelio yn erbyn y penderfyniad, mae gennych hawl i ofyn i ni edrych arno eto.
  Gweler **‘Ydych chi eisiau i ni edrych ar y penderfyniad eto?’** ar dudalen 4.
- Cofiwch, os yw’r Gwasanaeth Tribiwnlys yn darganfod eich bod wedi bod yn cael **gormod** o arian, bydd eich budd-dal yn cael ei **leihau.**

## Beth mae’r tribiwnlys yn edrych arno

- Dim ond y dystiolaeth, y gyfraith a’r amgylchiadau ar yr adeg pan wnaethpwyd y penderfyniad rydych yn apelio yn ei erbyn y gall y tribiwnlys edrych arnynt.
- Ni all y tribiwnlys edrych ar newidiadau yn eich amgylchiadau a ddigwyddodd ar ôl i ni wneud y penderfyniad.
- **Os yw eich amgylchiadau wedi newid ac y gall hyn gael effaith ar eich budd-dal neu olygu y gallwch hawlio eto, dylech ddweud wrthym yn syth.** Peidiwch ag aros am y gwrandawiad tribiwnlys. Cysylltwch â ni gan ddefnyddio’r manylion ar eich llythyr penderfyniad.

## Apeliadau hwyr

- Efallai na fydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn gallu derbyn eich apêl os ydynt yn ei dderbyn mwy nag **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad.

- Gallant dderbyn apêl hwyr dim ond os oes rheswm da pam ei fod yn hwyr. Gall hyn fod oherwydd:
  - fod rhywun wedi marw;
  - eich bod chi neu rywun sy'n agos atoch yn ddifrifol wael;
  - eich bod chi wedi bod dramor;
  - fod streic bost wedi bod; neu
  - fod amgylchiadau arbennig eraill.

- Dylech roi esboniad ynglŷn â pham nad oeddech yn gallu apelio o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** ar y ffurflen ar gefn y daflen hon.

- Bydd aelod tribiwnlys â chymwysterau cyfreithiol yn edrych ar y rhesymau pam na wnaethoch apelio mewn pryd a bydd yn penderfynu a yw'n bosibl derbyn eich apêl. Byddant yn edrych ar:

  - a oes gennych reswm da pam ei fod yn hwyr;
  - faint o amser sydd wedi pasio ers i chi gael gwybod am y penderfyniad;
  - a fyddai'n deg os na fydden ni'n derbyn eich apêl; ac
  - a yw eich apêl yn debygol o fod yn llwyddiannus.

- Ni all y Gwasanaeth Tribiwnlys dderbyn apêl hwyr os mai'r unig reswm dros hyn yw nad oeddech yn deall y gyfraith, neu fod y gyfraith wedi newid ers i ni wneud y penderfyniad.

- Os rydych yn apelio **13 mis** neu fwy ar ôl y dyddiad ar y llythyr penderfyniad, ni fyddant yn derbyn eich apêl.

## Tribiwnlys apêl

- Mae tribiwnlys yn cynnwys un neu ddau o bobl nad ydynt o'r awdurdod lleol.

- Bydd yr aelodau yma o'r tribiwnlys yn arbenigwyr ar bob agwedd o'ch apêl.
- Mae gan bob tribiwnlys aelod sydd â chymwysterau cyfreithiol i helpu i sicrhau fod y gyfraith yn cael ei dilyn yn eich apêl.
- Gall tribiwnlys hefyd gynnwys unigolyn gyda chymwysterau ariannol.

## Beth i'w wneud ar ôl i chi gyflwyno apêl

- Ar ôl i chi apelio byddwn yn esbonio ein penderfyniad i chi os nad ydym wedi gwneud hyn eisoes.
- Byddwn yn edrych ar y penderfyniad eto os nad ydym wedi gwneud hyn eisoes.
- Os rydym yn cytuno fod y penderfyniad cyntaf yn anghywir ac y bydd y penderfyniad newydd yn eich helpu chi, byddwn yn anfon penderfyniad newydd atoch a bydd eich apêl yn cael ei atal. Os nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad newydd, gallwch apelio yn ei erbyn.
- Os rydym yn cytuno fod y penderfyniad cyntaf yn anghywir ond nad yw'r penderfyniad newydd yn eich helpu, byddwn yn anfon penderfyniad newydd atoch. Bydd eich apêl yn parhau yn erbyn y penderfyniad newydd. Bydd gennych **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** arall i benderfynu a ydych yn cytuno â'r penderfyniad newydd.
- Os na fyddwn yn newid y penderfyniad, byddwn yn anfon eich apêl at y Gwasanaeth Tribiwnlys. Byddwn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y daethom i'r penderfyniad.
- Byddwn yn anfon copïau o'r papurau ynglŷn â'ch apêl atoch chi (a'ch cynrychiolydd os oes gennych un).
- Darllenwch y papurau yn ofalus iawn. Os oes unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall, gofynnwch i ni, i ganolfan gynghori, neu i gyfreithiwr ei esbonio i chi.
- Byddwch hefyd yn cael ffurflen. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon a'i hanfon at y Gwasanaeth Tribiwnlys o fewn **14 diwrnod** i'r dyddiad yr anfonwyd y ffurflen atoch. **Os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd eich apêl yn cael ei atal.**
- Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn cwestiynau ynglŷn â sut rydych chi eisiau i'r tribiwnlys edrych ar eich apêl. Gallwch ddewis rhwng **gwrandawiad llafar** a **gwrandawiad ysgrifenedig.** Os rydych yn dewis cael gwrandawiad llafar mae'n golygu y byddwch yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau neu i ddelio ag unrhyw broblemau sy'n codi. Mae pobl sy'n bresennol yn eu gwrandawiad fel arfer yn gwneud yn well na phobl sydd ddim yn bresennol.

## Gwrandawiad llafar

- Mae hwn yn wrandawiad apêl y gallwch fynd iddo.
- Gall y tribiwnlys ofyn cwestiynau i chi.
- Gallwch chi ofyn cwestiynau hefyd.
- Gallwch fynd â rhywun gyda chi i'ch cynrychioli.
- Gallwch alw tystion i roi tystiolaeth i'r tribiwnlys.
- Efallai y bydd un o'n swyddogion yn bresennol yn y gwrandawiad a gall ofyn cwestiynau a galw tystion.
- Os rydych yn dewis gwrandawiad llafar ond yn methu mynd, rhaid i chi ddweud wrth y Gwasanaeth Tribiwnlys yn syth. Rhaid bod gennych reswm da arall pam nad ydych yn gallu mynd, fel salwch. Efallai y bydd hi'n bosibl i chi drefnu diwrnod arall. Os na fyddwch yn dweud wrth y Gwasanaeth Tribiwnlys nad ydych yn gallu mynd, efallai y bydd y tribiwnlys yn gwrando ar eich apêl heb i chi fod yn bresennol ac na fydd yn mynd cystal ag y byddai petaech chi yno.
- Mae gwrandawiadau fel arfer yn agored i'r cyhoedd, ond bydd y bobl yn y gwrandawiad fel arfer yn rhan o'r apêl, Gallwch ofyn am gael cynnal eich apêl yn breifat os rydych yn dymuno gwneud hynny.

## Gwrandawiadau llafar, parhad

- Os rydych yn byw dramor ac eisiau gwrandawiad llafar, dywedwch wrth y Gwasanaeth Tribiwnlys eich bod eisiau mynd i'r tribiwnlys neu eisiau anfon rhywun i'ch cynrychioli. Gall y Gwasanaeth Tribiwnlys drefnu i'ch gwrandawiad apêl:
  - fod mor agos â phosibl at y man rydych yn glanio ym Mhrydain Fawr;
  - fod mor agos â phosibl at eich cynrychiolydd, os oes gennych un; ac
  - aros nes rydych chi ym Mhrydain Fawr.

### Costau

- Efallai y bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn talu ychydig o'ch costau ar gyfer mynd i'r tribiwnlys, (er enghraifft, eich costau teithio). Os hoffech gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn, cysylltwch â'r swyddfa Gwasanaeth Tribiwnlys sy'n delio â'ch apêl.
- Os rydych yn byw dramor, bydd rhaid i chi dalu i ddod i Brydain Fawr, a mynd adref yn ôl. Ond efallai y bydd posibl i chi dderbyn arian am rai o'ch treuliau tra rydych ym Mhrydain Fawr, a tra bydd yr apêl yn cael ei gynnal.

## Gwrandawiad ysgrifenedig

- Dyma wrandawiad apêl nad ydych chi'n mynd iddo. Ni fyddwch yn gallu ateb unrhyw gwestiynau na delio â phroblemau sy'n codi.
- Byddwn yn anfon ffurflen atoch gyda'r papurau apêl. Defnyddiwch hon i ychwanegu unrhyw wybodaeth ychwanegol rydych yn meddwl fydd yn helpu eich achos
- Peidiwch ag oedi cyn anfon yr wybodaeth hon, oherwydd ni fyddwch yn cael gwybod pryd fydd y gwrandawiad ysgrifenedig yn cael ei gynnal.
- Bydd yr apêl yn cael ei gynnal a bydd y Gwasanaeth Tribiwnlys yn anfon y penderfyniad atoch.
- Os yw'r tribiwnlys yn credu y bydd rhaid i chi fynd i wrandawiad llafar, gallant ddweud 'na' os rydych yn gofyn am wrandawiad ysgrifenedig.

**Os rydych yn dewis cael gwrandawiad ysgrifenedig ond yn newid eich meddwl, gallwch ddewis cael gwrandawiad llafar. Ysgrifennwch at y Gwasanaeth Tribiwnlys yn syth: Eastgate House, Heol Casnewydd, Caerdydd. CF24 0YP.**

## Y canlyniad

Yn y rhan hon rydym yn esbonio beth sy'n digwydd ar ôl y gwrandawiad llafar neu ysgrifenedig.

- Byddwch yn derbyn rhybudd o benderfyniad, sy'n esbonio penderfyniad y tribiwnlys, cyn gynted â phosibl. Byddwn ni yn cael copi ohono hefyd.
- Gallwch hefyd ofyn am 'ddatganiad o resymau'. Mae hwn yn esbonio sut y daeth y tribiwnlys i'w benderfyniad. Rhaid i chi ofyn am 'ddatganiad o resymau' o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad rydym yn rhoi neu'n anfon y rhybudd o benderfyniad. Rhaid i chi gael copi o'r 'datganiad o resymau' os rydych yn apelio at y Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol. **Os rydych yn anghytuno â phenderfyniad y tribiwnlys, gweler tudalen 9 y daflen hon.**
- Os rydych eisiau cofnod o'r gwrandawiad apêl, gallwch ofyn am gopi hyd at 6 mis ar ôl y gwrandawiad.
- Os yw eich apêl yn llwyddiannus, byddwn fel arfer yn cywiro'r penderfyniad cyn gynted ag y byddwn yn derbyn ein copi o benderfyniad y tribiwnlys. Efallai na fyddwn yn ei gywiro yn syth os byddwn yn apelio at y Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol.

# Beth i'w wneud os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad y tribiwnlys

## Apeliadau i'r Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol

- Os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad y tribiwnlys apêl, efallai y gallwch apelio at y Comisiynwyr Nawdd Cymdeithasol.
- Mae'r comisiynwyr wedi gweithio fel bargyfreithwyr, cyfreithwyr neu'n eiriolwyr (pobl sy'n cael eu dewis i weithredu ar ran eraill) am o leiaf 10 mlynedd. Nid ydynt yn rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau na'r awdurdod lleol.

## Pwy all apelio i'r comisiynwyr?

- Gall y canlynol apelio at y comisiynwyr.
  - Unrhyw un sydd eisoes wedi apelio i'r Gwasanaeth Tribiwnlys
  - yr awdurdod lleol
  - yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Beth allwch chi apelio i'r comisiynwyr ynglŷn â nhw

- Yr unig amser y gallwch apelio i'r comisiynwyr yw os rydych yn credu fod y tribiwnlys wedi defnyddio'r gyfraith yn anghywir yn eich achos. Nid ydych yn cael apelio i'r comisiynwyr ynglŷn â:
  - ffeithiau; na
  - beth oedd casgliad neu benderfyniad y tribiwnlys.

## Sut i apelio

- Bydd eich llythyr penderfyniad gan y Gwasanaeth Tribiwnlys yn dweud wrthych beth i'w wneud os nad ydych yn hapus gyda'r penderfyniad. Darllenwch hwn yn ofalus. Mae'n dweud wrthych am y terfynau amser pwysig ar gyfer eich apêl.
- Nid ydych yn cael apelio nes y byddwch wedi derbyn y 'datganiad o resymau' ynglŷn â phenderfyniad y tribiwnlys.
  Gweler **'y canlyniad'** ar dudalen 8.
- Dylech ddarllen y 'datganiad o resymau' yn ofalus. Os nad ydych yn credu fod y tribiwnlys wedi defnyddio'r gyfraith yn gywir yn eich achos, gallwch wneud cais i apelio i'r comisiynwyr. Dylech wneud hyn o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad yr anfonwyd y 'datganiad o resymau' atoch gan y tribiwnlys.
- Os rydych yn apelio i'r comisiynwyr, mae'n rhaid i chi anfon y 'datganiad o resymau' gyda'ch cais. Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai na fyddant yn edrych ar eich cais.
- Bydd aelod tribiwnlys sydd â chymwysterau cyfreithiol yn penderfynu a ydych yn cael anfon eich apêl i'r comisiynwyr neu os ddylai tribiwnlys gwahanol edrych eto ar yr apêl.
- Gallwch ofyn i ganolfan gynghori, i gyfreithiwr neu i unigolyn neu sefydliad addas arall eich helpu chi gyda'ch cais.

### Ceisiadau hwyr

- Os rydych yn gwneud cais hwyr am 'ddatganiad o resymau' neu i apelio i'r comisiynwyr, bydd y tribiwnlys neu'r comisiynwr ddim ond yn derbyn eich cais os oes rheswm da pam ei fod yn hwyr.
- Bydd rhaid i chi esbonio pam ei fod yn hwyr.

# Sefydliadau eraill a all eich helpu

## Canolfannau cynghori

Gall canolfannau cynghori fel swyddfeydd Cyngor ar Bopeth a chanolfannau cyfraith eich cynrychioli chi a'ch helpu chi i ddeall pam rydym wedi gwneud y penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor. Gallant hefyd eich helpu chi i lenwi ffurflenni neu ysgrifennu llythyrau. Weithiau, byddant yn mynd gyda chi i'r tribiwnlys sy'n gwrando ar eich apêl.

Bydd o gymorth i'r ganolfan gynghori os fyddwch yn dangos unrhyw lythyrau sydd gennych ynglŷn â'r penderfyniad yr ydych yn credu sy'n anghywir. Efallai y gall undebau llafur roi cyngor am ddim hefyd a siarad ar eich rhan yn y tribiwnlys ar ddydd eich apêl.

Efallai y bydd ein Swyddfa Hawliau Lles hefyd yn gallu helpu.

Gallwch ddod o hyd i gyfeiriadau'r sefydliadau hyn yn adran fusnes y Llyfr Ffôn, cyfeirlyfr Thomson Local, yr Yellow Pages neu yn y llyfrgell.

## Cyfreithwyr

Efallai y byddwch yn gallu cael cyngor gan gyfreithiwr dan y Cynllun Cyngor a Chymorth Cyfreithiol.

Gallwch ddarganfod mwy am hyn gan gyfreithiwr. Ond os rydych yn penderfynu defnyddio cyfreithiwr yn eich gwrandawiad, bydd rhaid i chi dalu iddynt eich helpu chi. Ni allwch gael arian ar gyfer pethau fel costau eich cyfreithiwr gennym ni na'r Gwasanaeth Tribiwnlys.

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â chyfreithwyr a chanolfannau cynghori a all eich helpu, cysylltwch â The Legal Aid Board gan ddefnyddio'r manylion a ganlyn:

The Legal Aid Board
85 Grays Inn Road
Llundain
WC1X 8TX
Rhadffôn y DU: **0500 282 3000**
Rhif ffôn: **0171 813 1000**

## Os rydych yn byw dramor

Os rydych yn byw dramor gallwch ofyn i rywun ym Mhrydain Fawr i weithredu ar eich rhan. Efallai y gall y Cynllun Cyngor a Chefnogaeth Cyfreithiol eu helpu i ddod o hyd i gyfreithiwr i'ch helpu chi, ond ni fydd yn talu am gyfreithiwr i'ch helpu chi yn y gwrandawiad.

Cyngor Bwrdeistref Sirol
**Bodlondeb, Conwy LL32 8DU**
Swyddfeydd Budd-dal Tai a Budd-dal Treth y Cyngor
Rhif ffôn: 01492 576491
Rhif ffacs: 01492 576260

**At ddefnydd swyddogol yn unig**

| Dyddiad derbyn y ffurflen | Dyddiad y cafodd ei gyflwyno |
|---|---|
| | Y rheswm |

**Llenwch y ffurflen hon os rydych eisiau apelio yn erbyn y penderfyniad ynglŷn â'ch Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth y Cyngor neu am ordaliad Budd-dal Tai.**
**Llenwch y ffurflen hon a'i hanfon yn ôl atom.**

## Amdanoch chi

Teitl: Mr/Mrs/Miss/Ms

Eich cyfenw:

Pob enw arall:

Eich dyddiad geni: / /

Nid oes rhaid i chi lenwi hwn os ydych yn landlord sy'n apelio yn erbyn gordaliad Budd-dal Tai.

Eich rhif Yswiriant Gwladol:

Gallwch ddod o hyd i hwn ar eich cerdyn rhif yswiriant gwladol, eich slip cyflog, eich papurau treth neu unrhyw lythyrau rydych wedi'u derbyn gan yr adran nawdd cymdeithasol.

Nid oes rhaid i chi nodi eich rhif Yswiriant Gwladol os rydych yn landlord sy'n apelio yn erbyn gordaliad Budd-dal Tai.

Eich cyfeiriad gan gynnwys y cod post:

Eich rhif ffôn yn ystod y dydd (gan gynnwys cod ardal):

Ydych chi wedi trefnu i rywun eich helpu gyda'ch apêl?

Naddo ☐
Do ☐

Os 'do', nodwch eu henw llawn:

Eu cyfeiriad gan gynnwys y cod post:

Llofnodwch y bocs hwn er mwyn i'r unigolyn gael gweithredu ar eich rhan:

## Ynglŷn â'r penderfyniad

Nodwch enw'r budd-dal rydych yn dymuno apelio yn ei erbyn:

Dywedwch wrthym beth yw'r dyddiad ar frig eich llythyr ynglŷn â'r penderfyniad: / /

## Ynglŷn â'ch apêl

- Defnyddiwch y gwagle ar dudalen nesaf y ffurflen hon i ddweud pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.
- Rhaid i chi ddweud pam eich bod yn credu fod y penderfyniad yn anghywir. Nid yw'n ddigon da i ddweud 'Nid wyf yn cytuno â'r penderfyniad' neu 'nid yw'r arian yn ddigon'.
- Dylai'r rhesymau rydych yn eu rhoi fod yn debyg i'r enghreifftiau a ganlyn:
  - '£75 yr wythnos oedd fy rhent, ond dywedoch chi mai £35 yr wythnos oedd o';
  - 'Symudais i'r eiddo ar 1 Tachwedd ac nid 1 Rhagfyr';
  - 'Rydych wedi defnyddio'r cyflog anghywir i gyfrifo fy mudd-dal. Dim ond £250 wnes i ei dderbyn yn ystod wythnos y Nadolig'; neu
  - os rydych yn landlord, 'dechreuodd fy nhenant weithio heb ddweud wrthyf'.
- Os rydych yn apelio yn erbyn mwy nag un penderfyniad, rhaid i chi ddweud pam nad ydych yn cytuno gyda phob un yn unigol.
- Os rydych yn apelio mwy nag un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos) ar ôl i ni wneud y penderfyniad, rhaid i chi esbonio pam fod eich apêl yn hwyr.

## Eich apêl

- Defnyddiwch y gwagle hwn i nodi pam nad ydych yn cytuno â'r penderfyniad.
- Rhaid i chi ddweud pam rydych yn credu fod y penderfyniad yn anghywir. Defnyddiwch LYTHRENNAU BRAS.

## Eich apêl, parhad

## Eich apêl, parhad

## Eich llofnod

Eich llofnod:

Y dyddiad: / /

Os yw rhywun yn mynd i weithredu ar eich rhan yn swyddogol, gofynnwch iddynt lofnodi yma.
Eu llofnod:

## Beth i'w wneud rŵan

- **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob rhan o'r ffurflen hon a'i llofnodi.**
- Anfonwch eich ffurflen wedi'i chwblhau at y cyfeiriad canlynol.

  Swyddfa Budd-daliadau Tai a Budd-dal Treth y Cyngor
  Adran Gyllid
  Bodlondeb
  Conwy
  LL32 8DU

- Cofiwch, rhaid i'ch apêl gyrraedd y Swyddfa Budd-daliadau o fewn **un mis calendr (mis cyfan yn hytrach na 4 wythnos)** i'r dyddiad ar frig y llythyr penderfyniad.